

Astudiaeth Achos 2

Datblygiad Gyrfa

Mae Lisa wedi gweithio fel gweithiwr cymorth i ddarparwr gofal cartref ers pedair blynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae ei gwybodaeth, ei sgiliau a'i hyder wedi datblygu'n sylweddol.

Mae Lisa wedi dangos diddordeb mewn ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb er mwyn datblygu ei gwybodaeth a'i sgiliau ymhellach gan y byddai'n hoffi cael swydd fel rheolwr yn y dyfodol. Trwy brosesau goruchwylio ac arfarnu'r sefydliad, mae Lisa wedi trafod hyn gyda'i rheolwr llinell, sydd wedi asesu bod Lisa yn barod i ymgymryd â rhai cyfrifoldebau ychwanegol.

Maent wedi cytuno i nodi meysydd gwaith penodol i Lisa ganolbwyntio arnynt. Er bod Lisa'n cael mwy o gyfrifoldeb, bydd ei swydd yn parhau yr un fath ar hyn o bryd felly ni fydd yn cymryd cyfrifoldeb llawn am waith rheoli'r gwasanaeth. Gallai Lisa ddatblygu ei phrofiad mewn sawl maes posibl yn y sefydliad, yn amrywio o dasgau bach i gyfrifoldebau ychwanegol. Defnyddiwyd y SGC ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol i lywio'r drafodaeth a chynllun datblygu Lisa. Maent yn teimlo y bydd hyn yn helpu Lisa i symud ymlaen yn ei gyrfa drwy sicrhau bod:

- dysgu'n canolbwyntio ar feysydd penodol
- dysgu yn ddigon manwl i fodloni safonau cenedlaethol
- y sefydliad yn gallu cynllunio sut i ddarparu'r dysgu a nodwyd gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau
- y sefydliad yn gallu cynllunio'r ffordd orau o ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau newydd Lisa, a allai gynnwys cynllunio ar gyfer rôl reoli yn y dyfodol

Mae Lisa a'i rheolwr llinell wedi trafod meysydd i'w datblygu ac wedi penderfynu dechrau trwy ganolbwyntio ar weithio gydag unigolion ar sail asesiad o anghenion. Y SGC perthnasol ar gyfer asesiad yn y gyfres iechyd a gofal cymdeithasol fyddai:

- **SCDHSC0414 Asesu anghenion a dewisiadau unigolion**

Mae Lisa a'i rheolwr yn cytuno ar gynllun datblygu gan ddefnyddio templed cofnodi'r pecyn DPP (Rhan A – Cynllunio eich dysgu) (<http://www.cgymru.org.uk/datblygiad-proffesiynol-parhaus/>) i gofnodi'r wybodaeth a'r sgiliau y byddai'n rhaid i Lisa eu datblygu i fodloni'r safonau a nodwyd. Maent hefyd yn edrych ar yr hyn mae'n gobeithio ei gyflawni a'r dulliau a'r gefnogaeth fydd eu hangen arni er mwyn gwneud hynny. Bydd rheolwr Lisa'n monitro ei chynnydd drwy oruchwylio ac arfarnu i weld sut mae wedi cyflawni o gymharu â'r SGC a beth fydd ei hanghenion dysgu yn y dyfodol.

Rhan A – Cynllunio eich dysgu

Yn yr adran hon mae Lisa wedi defnyddio SGC **SCDHSC0414 Asesu anghenion a dewisiadau unigolion** i roi amlinelliad i'w rheolwr a'i hunan o'r meysydd allweddol y mae'n rhaid iddi eu datblygu o ran ei sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth cyfredol. Sylwch ein bod wedi cyfeirio at y meini prawf perfformiad a'r datganiadau gwybodaeth a ddefnyddiwyd fel sail i'r ymarfer hwn, gallwch droi at y SGC i gael rhagor o wybodaeth a manylion.

Pa wybodaeth a sgiliau sydd angen i mi eu datblygu?	Beth sydd eisiau/angen i mi ei gyflawni – pa wahaniaeth wnaiff hyn?	Pa ddulliau sydd ar gael?	Pa gymorth ddylwn i ei gael?	Beth yw fy nyddiadau targed?	Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r canlyniadau sydd eu heisiau/angen arnaf?
Gallu cynnal asesiadau cynhwysfawr o anghenion a dewisiadau unigolion	Deall sut i adolygu, casglu a dadansoddi gwybodaeth am ddewisiadau unigolion	Defnyddio'r SGC fel man cychwyn a chanllaw ar gyfer yr hyn ddylid ei gwblhau – P1-P17 sy'n ymddangos yn fwyaf perthnasol	Gallu cael gafael ar y SGC	Wythnos	Cwblhau asesiadau i safon a nodir yn y SGC a pholisi

Rhan A – Cynllunio eich dysgu (parhad)

Pa wybodaeth a sgiliau sydd angen i mi eu datblygu?	Beth sydd eisiau/angen i mi ei gyflawni – pa wahaniaeth wnaiff hyn?	Pa ddulliau sydd ar gael?	Pa gymorth ddylwn i ei gael?	Beth yw fy nyddiadau targed?	Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r canlyniadau sydd eu heisiau/angen arnaf?
Deall sut i gynorthwyo unigolion i gymryd rhan yn eu hasesiad	<p>Gallu cynorthwyo unigolion a'u cynhalwyr/teuluoedd i gymryd rhan yn y broses asesu</p> <p>Gallu cynnal sesiadau unigol cynhwysfawr</p> <p>Gwybod sut i gwblhau'r gwaith papur angenrheidiol a'r cofnodion ar gyfer sesiadau</p> <p>Gwybod sut i gyflwyno gwybodaeth asesu i unigolion a fydd yn eu helpu i wneud penderfyniadau am eu gofal a'u cymorth</p>	<p>Darllen polisïau a gweithdrefnau asesu</p> <p>Cysgodi rheolwr mwy profiadol wrth gwblhau dau sesiad</p> <p>Cynnal deg sesiad dros y chwe mis nesaf gyda chymorth mentor</p>	<p>Gallu gweld polisïau a gweithdrefnau</p> <p>Rheolwr i'w gysgodi</p> <p>Nodi mentor a deg unigolyn ar gyfer asesu</p>	<p>Wythnos</p> <p>Mis</p> <p>Chwe mis</p>	Gwerthuso profiad unigolion a aseswyd – holiadur neu drafodaeth efallai